# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Cyllideb Atodol 1af - 2024/25

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Mae’r cyflwyniad o’r Gyllideb Atodol hwn wedi’i baratoi yn unol â Rheolau Sefydlog 18A.2 a 20.36 Senedd Cymru (dyddiedig Medi 2023).

### Crynodeb

Cynigir yr amrywiad canlynol i’r cynnig cyllideb blynyddol:

- Cynnwys incwm ychwanegol a gwariant cyfatebol (£45k) i adlewyrchu secondiad aelod o staff OGCC i Gomisiwn y Senedd, o fis Ionawr 2024. Mae'r gwariant i gwrdd â'r gost o ôl-lenwi'r swydd.

### Secondiadau Staff

Mae gennym aelod o staff sydd wedi cael ei secondio i Gomisiwn y Senedd am 12 mis o fis Ionawr 2024. Bydd hyn yn arwain at incwm ychwanegol o £45k ar gyfer 2024/25. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys cynnydd yn ein hincwm i adlewyrchu'r newid hwn. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn mynd i gostau staff ychwanegol o £45k i ôl-lenwi'r swydd wag y mae hyn yn ei chreu. Felly dim yw effaith net y secondiad hwn.

### Diweddariad ar y adeilad y swyddfa

Yn ymateb yr Ombwdsmon i argymhellion y Pwyllgor, yn ei adroddiad ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rhoesom ddiweddariad ar y cynnydd tuag at leihau nifer yr adeilad swyddfa a ddefnyddiwn. Ar yr adeg honno, ym mis Ionawr, roeddem wedi gadael llawr cyntaf ac ail lawr ein llety ac roeddem wrthi'n chwilio am denantiaid newydd i gymryd yr ardaloedd hyn. O dan y brydles bresennol, mae rhent ar yr ardaloedd hyn yn ddyledus tan fis Awst 2025, ac rydym hefyd wedi bod yn ceisio ildio’r ardaloedd dros ben hyn i’r landlord ar delerau derbyniol. Rydym yn gweithio i leihau taliadau ildio a thaliadau dadfeiliadau. Er nad oes cytundeb eto, mae cynnydd da yn cael ei wneud a byddwn yn parhau i roi diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor. Bydd unrhyw arbedion a wneir, o leihau gofod y swyddfa, yn cael eu buddsoddi i'n helpu i ateb y galw am ein gwasanaethau ac mewn gwella gwasanaethau, yn enwedig buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth.

| Pob ffigwr mewn £000s | Amcangyfrif | Newidiadau | Amcangyfrif Diwygiedig |
|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 4,960 | 45 | 5,005 |
| Buddsoddi mewn gwella gwasanaeth - staff | 120 | | 120 |
| Eiddo a chyfleusterau | 216 | | 216 |
| Ffioedd proffesiynol | 263 | | 263 |
| Costau TG | 327 | | 327 |
| Buddsoddi mewn TG a Strategaeth Ddigidol | 50 | | 50 |
| Costau swyddfa | 102 | | 102 |
| Teithio, hyfforddi a recriwtio | 42 | | 42 |
| Cyfathrebu | 68 | | 68 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **6,148** | **45** | **6,193** |
| Cyfanswm Incwm | (27) | (45) | (72) |
| **Gwariant Refeniw Net** | **6,121** | **-** | **6,121** |
| Gwariant Cyfalaf - DEL | 5 | | 5 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau Gofynnol** | **6,126** | **-** | **6,126** |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 70 | | 70 |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | 155 | | 155 |
| Tâl llog – asedau wedi'u prydlesu | 7 | | 7 |
| AME Cyfalaf - dadfeiliadau | - | | - |
| **Cyfanswm Gwariant Adnoddau** | **6,358** | **-** | **6,358** |
| Dibrisiant ac amorteiddio | (70) | | (70) |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | (155) | | (155) |
| Tâl llog – asedau wedi'u prydlesu | (7) | | (7) |
| AME Cyfalaf - dadfeiliadau | - | | - |
| Newid mewn cyfalaf gweithio | 198 | | 198 |
| Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod | 20 | | 20 |
| **Gofynion Arian Parod gan WCF** | **6,344** | **-** | **6,344** |